

Yr Haf

Hwn yw awyr ein dyhead—yn las

Ddi - loes a dilygriad,

Dibryder, llawn adferiad,

A hwn yw llun o'n gwellhad.



Gareth

Gair y Gweinidog

Ydach chi'n hoffi uwd? Rhyw deimladau cymysg sydd gen i am uwd ac os am bowleniad yna mae'n rhaid wrth y canlynol: ei wneud gyda llaeth yn hytrach na dŵr, ychydig o syrup neu'n well byth 'maple', dim yn rhy dew a dim ail bowlenaid. Rhyw frecwast gaeaf fydda i'n gweld uwd ond yn ystod yr wythnos diwethaf dwi wedi bod yn bwyta un powlenaid ar ôl y llall. A hithau'n ddiwedd Mai, anodd credu bod Mehefin y cyntaf yn dynodi dechrau tymor yr Haf, yr 'ha hir-felyn tesog' yna mae Ellis Wynne yn cyfeirio ato. A gyda hynny, atgyfodion plentyndod, bod Wythnos y Sulgwyn a'r daith arferol i Eisteddfod yr Urdd yn arwyddo dechrau cyfnod fyddai wrth ein bodd, gyda'i gynhesrwydd a'i ddyddiau hir a'r cyfleon hynny i fwynhau chwarae a natur a cherdded. 'Toedd yna ddim fawr o deithio, dim ond trip yr Ysgol Sul ac ambell ymweliad â thŷ nain, ond mae'r atgofion yn aros a'r teimlad braf yna wrth feddwl am gyfnod a thymor sy'n ymddangos mor bell i ffwrdd bellach. Tra'n ysgrifennu'r ychydig eiriau yma mae'r gwres canolog ymlaen a'r glaw unwaith eto yn taro yn erbyn y ffenestr a'r rhagolygon am yr wythnos yn llawn glaw gyda ambell i ysbaid heulog.

Sawl gwaith yn ystod y dyddiau diwethaf dwi wedi clywed fy hun yn ynganu'r geiriau "mae hi fel ganol gaeaf!" a gyda'r sylw yna y cwestiwn ynglyn â beth sy'n digwydd i fyd ac i fywyd. Fe fu Wythnos Cymorth Cristnogol, Mai y 10fed i'r 16eg yn gyfle i chi a fi gael ein hatgoffa o'n cyfrifoldebau tuag at y greadigaeth a'r her i wneud rhywbeth, yn roddion ond hefyd yn lais yn erbyn anghyfiawnder. Newid hinsawdd, ac effaith hyn i gyd ar fywydau unigolion a chymunedau, ond allwn ni ddim llai na meddwl hefyd am hinsawdd o natur arall. Yn ffigyrol felly, fe fyddai'n wir dweud ei bod hi'n aeaf o'r newydd ar ambell un a'u bywydau'n ymddangos yn llawn stormydd ar hyn o bryd.

Mae'r deuddeg mis diwethaf wedi gadael ei ôl ar fywydau, yn feddyliol ac yn faterol, ac wedi rhoi bod i sefyllfaoedd tuhwnt i'n dychymyg. Yn ôl ystadegau diweddar mae 2.5 miliwn o bobl yn defnyddio Banciau Bwyd yn ein gwlad a chanran tlodi plant yng Nghymru yn un rhan o dair sef 200,000. Beth sy'n tristau rhywun ymhellach yw'r agwedd sarhaus yna sydd gan rhai unigolion gyda'r awgrym nad oes gan hyn ddim i'w wneud 'hefo fi'. Os ydan ni'n bobl sy'n arddel Duw yn ein bywydau yna mae ganddo bopeth i'w wneud 'hefo fi', wrth i ni ddeall beth yw ystyr trugaredd ac ysbryd 'gwasanaeth Crist'. A thuhwnt i'r materol, wrth i bwysau bywyd ddwyschau a'r cyfan yn dwyn i brofiad rhywun y teimlad o anobaith ac ansicrwydd, yr angen a'r ddealltwriaeth o dangnefedd, tawelwch mewmol sydd yn galon ein dealltwriaeth o waith Ysbryd Glân Duw.

Mae'r Eglwys hefyd wedi gwynebu stormydd ar hyd y canrifoedd. O ddyddiau erledigaeth yr Ymerodraeth Rufeinig i'r cyfnod ôl Gristnogol diweddar, ac ar un llaw wedi dioddef ond ar y llaw arall wedi gorchfygu. Fe fyddai'n wir dweud bod y sefyllfa bresennol wedi bod yn ergyd pellach ond ar yr un pryd wedi caniatáu i ni ddeall o'r newydd beth yw ystyr bod yn Eglwys a thrwy hynny, darganfod rhyw hyder newydd fydd yn gynhالياeth ac yn arweiniad wrth wynebu'r dyfodol. Fe fydd y misoedd nesaf yn fisoedd o barhau ein bywyd fel eglwys ond hefyd yn gyfle i ail adeiladu ac adeiladu o'r newydd, a'r gwahoddiad i chi a fi i fod yn rhan o hyn a phrofi o'r newydd y cariad a'r cynhالياeth yna sy'n dangos fod Duw yn dal yn y canol.

Felly ymlaen â ni!

Eifion.



NEWYDDION

Cofion a dymuniadau gorau.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Geraint Lewis Jones, Walfor Gealey a Celia Jones sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

Anfonwn ein cofion hefyd at bawb sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi preswyl.

Cydymdeimlad

Trist yw cofnodi marwolaeth Ossie Rees, Ffordd Penglais. Cydymdeimlwn â'i ddwy chwaer Mary a Rene a'r teulu oll. Hefyd cydymdeimlwn â Gwilym Jones ar farwolaeth ei fam, sef Megan Jones, yng Nghartref Tregerddan. Roedd yn chwaer i Ossie, Mary a Rene. Maent fel teulu wedi profi dwy golled a chofiwn amdanynt ar yr adeg yma,

Llongyfarchiadau

I Islwyn a Mair Hughes, Tŷ Gwyn, Ffordd Llanbadarn, fydd yn dathlu eu Priodas Aur ar y 29ain o Fai, 2021. Pob iechyd a hapusrwydd i'r dyfodol.

Dymuno'n dda

Dymunwn yn dda i'r ieuenctid yn nhymor yr asesiadau gan ddymuno'n dda iddynt yn y dyfodol.

Newyddion Ebeneser



Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at aelodau a chyfeillion Ebeneser ac at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi preswyl.

Edrychwn ymlaen at yr Haf gan obeithio y bydd amgylchiadau'n caniatáu i ni gyfarfod â'n gilydd wyneb yn wyneb.

Golygyddion mis Mehefin – Eifion ac Alwen
Golygyddion mis Gorffennaf – Gwerfyl a Menai
gwerfylpj@googlemail.com a menailwyd@googlemail.com

Dyddiad cau – Mehefin y 18fed

TREFECA



Wyt ti'n gwybod y ffordd i Drefeca?

Dyma'r cwestiwn ddaeth ag amlygrwydd i Nefyn. Mae'n gwestiwn sy'n berthnasol i mi wrth gychwyn fy swydd yn Gydlynnydd Hyfforddi a Swyddog Datblygu Coleg Trefeca. Mae'r cyfyngiadau'r cyfnod clo'n cael eu codi a'm gobaith yw y caf ymweld yn fuan â Threfeca. A wyddoch felly ymhle mae Trefeca? Mae tua 10 milltir i'r gogledd o Aberhonddu a dwy filltir i'r de o Dalgarth yn harddwch Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Beth sydd gan Goleg Trefeca i'w gynnig?

Dyma un o ganolfannau Cristnogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Cewch gyfleusterau llety a chynadledda cyfforddus i unigolion, teuluoedd a grwpiau. Mwynhewch ymweliad â chartref hanesyddol ac amgueddfa yn ymwneud â Howel Harris (1714-1773) a'r Diwygiad Methodistaidd.

Gellir ymweld â gwefan Coleg Trefeca am wybodaeth hanesyddol: <https://www.trefeca.org.uk>

Cewch hefyd fwy o wybodaeth wrth wyllo'r ffilm sydd ar wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Dewiswch 'Ein Cenhadaeth', yna 'Eglwysi a Chanolfannau' ac yna 'Coleg Trefeca'. Dyma'r ddolen gyswllt:

<<https://www.ebcpcw.cymru/cy/ein-cenhadaeth/eglwysi-a-chanolfannau/>>

Mae tudalen Facebook newydd gan Goleg Trefeca:

<https://www.facebook.com/colegtrefeca>

Croeso i chi ei 'hoffi', 'rhannu' ac 'ymateb' - megis i'r 'Gweddi Amser Paned' fu'n cefnogi Wythnos Cymorth Gristnogol Mai 10-16. Mae bwriad gan Ymddiriedolwyr Coleg Trefeca i gyhoeddi 'Gweddi'r Wythnos' ac mae croeso i chi gyfrannu. Er nad yw'r cyrsiau hyfforddi wedi ail ddechrau eto yng Ngholeg Trefeca, gellir dal mwynhau'r cyfan sydd gan Goleg Trefeca a'r ardal i'w gynnig. Y newyddion da yw bod Coleg Trefeca yn cael ail agor yn araf deg wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo gael eu codi.

Mae'n yna gynnig arbennig ar hyn o bryd hyd 31 Awst 2021. Cynigir yn y bloc llety, 'Llety Ystafell yn Unig' gydag ystafell ymolchi bersonol, cyfleusterau gwneud te a choffi a'r defnydd o rewgell, offer barbeciw a WiFi. Bydd y Capel Bach ar agor ar gyfer gwasanaeth a gweddi bersonol. Mae'r cynnig ar gyfer teulu neu 'swigen deuluol' am £40 y noson i Weinidogion, Gweithwyr, Blaenoriaid neu aelodau Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn unig. Yn unol â'r cyfyngiadau Cofid-19 presennol, bydd eich cartref neu'ch swigod yn cael defnydd o'r tir a'r bloc llety. Wrth i gyfyngiadau gael eu codi, efallai y gallwn gynnig brechwast i chi (am gost ychwanegol), ac efallai y bydd aelwydydd eraill hefyd yn aros ar yr un pryd. I gysylltu â Choleg Trefeca ac archebu llety, cysylltwch gyda Mair Jones, Rheolwr Coleg Trefeca.

Ffôn: 01874 711423

E-bost: colegtrefeca@ebcpcw.org.uk

Rhys Bebb Jones

Cydlynnydd Hyfforddi a Swyddog Datblygu Coleg Trefeca

Pob dymuniad da i Rhys ar ei swydd newydd a beth am droi trwyn y car i Drefeca yn ystod yr haf!

RHANNU PROFIAD

Tri person yn rhannu profiad yng nghanol ein sefyllfa bresennol.

Mae Eifion Wynne o Rhuthun wedi sefydlu eglwys ar-lein. Braf oedd cael sgwrs a diolch am ei gyfraniad.

Fy enw yw Eifion Wynne, ac rwy'n byw yn Rhuthun, Sir Ddinbych. Er i mi wneud sawl swydd gwahanol, treuliais dros chwarter canrif fel athro addysg cynradd. 'Rwy'n cynnal cysylltiad ag eglwys leol y bum yn aelod ynddi tan ddiwedd 2019. Ers hynny, deuthum yn anwenwadwr am sawl rheswm. 'Rwy'n rhyddfrydol o ran safbwynt Cristnogol personol.

Er bod Capel Rhos Newydd, sef capel ar-lein anffurfiol, rhyddfrydol ac anenwadol, wedi ei wreiddio yn Rhuthun nid oes iddo unrhyw ffiniau.

Pan es ati i ffurfio'r eglwys ar-lein hon, roeddwn yn ddigon diglem o ran sgiliau technoleg. Ond, yn sgil cofid, fe'm gorfodwyd i wella hynny o sgiliau digidol oedd gennyf.

Mor ddiweddar â dechrau cyfnod cofid yr ymunais â'r gweplyfr (facebook). Treuliais oriau, wythnosau a misoedd yn ceisio dysgu am ei botensial eang. Ymhen amser, deuthum i ddeall beth oedd Tudalen Gweplyfr a Grŵp Gweplyfr.

Cyn ymgodymu â'r cyfrwng gweplyfr, ffurfiais grŵp Watt's App, a'i alw'n Cristnogaeth gymedrol i adlewyrchu fy safbwynt Cristnogol personol. Gwahoddais tua pymtheg o bobl i ymuno â'r grŵp. Dros yr hydref a'r gaeaf, bum yn recordio trwy gyfrwng sain dros fy ffôn symudol epilogaau neu addoliad byr

yn para tua pum neu ddeng munud o hyd. Yn niwedd mis Chwefror eleni, deuthum â'r grŵp Watts App i ben.

Ymhen rhai wythnosau, penderfynais sefydlu eglwys ar-lein anffurfiol, anenwadol a rhyddfrydol, heb unrhyw ffiniau penodol iddi ar y cyfrwng gweplyfr. Cafodd yr eglwys ei lansio gennyf ar Sul y Pasg eleni, dan yr enw Capel Rhos Newydd. Hyn oherwydd, nepell o'm cartref mae cyn-addoldy Capel Y Rhos a gauodd yn niwedd y bedwaredd ganrif a'r bymtheg pan godwyd adeilad presennol Y Tabernacl.

Ers dechrau cofid, mae nifer o eglwysi wedi cadw eu drysau ar agor, eraill wedi agor yn raddol, a rhai heb agor o gwbl. Yn ddealladwy, mae rhai pobl wedi dyheu am ddychwelyd i'r drefn draddodiadol, oedfa awr o hyd ac ati, ond eraill ddim mor awyddus am sawl rheswm, ac yn gyfforddus gyda'r ddarpariaeth ar-lein cymharol newydd.

Un ffaith sicr yw na fydd Capel Rhos Newydd yn dychwelyd i adeilad, achos nid capel felly ydyw!

Eifion Wynne

Mae pawb yn adnabod Sandra Morris Jones ac yn gwerthfawrogi ei chyfraniad i gymaint o gylchoedd. Yma mae hi'n sôn am fywyd ei chapel ym Mronant wrth wynebu'r dyfodol.

PROFIAD CAPEL BRONANT

Fel y gwyddoch, mae'r capel yn gwasanaethu ardal wledig a gwasgaredig gyda chanran uchel o aelodau oedrannus. Mae'n un o deulu Gofalaeth Llanilar ac heb weinidog ar hyn o bryd. Pan gyhoeddwyd cyfyngderau a rheolau ymladd Cofid19, edrychai pethau'n anobeithiol o ran parhau gyda'n gwaith o

gyhoeddi'r efengyl. Sut ar wyneb y ddaear oedd gwneud y gwaith? Bu swyddogion y capel yn trafod hyn wedi i ni glywed am gynlluniau rhai capeli ac eglwysi ar draws Cymru. Doedd gwneud dim byd ddim yn opsiwn i ni.

Penderfynwyd mentro ac arbrofi gyda Zoom: rhywbeth hollol newydd a chyffrous i ni gyd. Y person allweddol yma yw Delyth Humphreys sy'n gweithredu fel gwestai "host" ers i ni ddechrau dros flwyddyn erbyn hyn. Roedd angen sicrhau bod gennym Zoom ar y cyfrifiadur, cluniadur, llechen neu ffôn symudol cyn medru gwneud dim byd. Cafwyd sesiwn ymarfer ac yna bwrw ati drwy ddefnyddio deunydd parod Diwrnod Gweddi'r Byd gyda phob un ohonom yn cymryd rhan. Gwnaed y myfyrdod ac roeddem yn teimlo'n falch a bod modd cadw at y drefn hon.

Criw bach oeddem i ddechrau ond estynnwyd gwahoddiad i aelodau'r capel ymuno a thrwy wneud hyn daeth cyfle i fwynhau cwmni ffrindiau anabl, rhai oedd yn dioddef afiechydon a rhai nad oeddynt yn addolwyr cyson. Soniwyd wrth y capeli eraill yr ofalaeth am y myfyrdod a braf cyhoeddi bod cynrychiolaeth o'r deg capel yn cyfranogi. Mae'r criw bach ddechreuodd y cyfan yn chwech aelod ar hugain.

Mae system gyda ni lle mae un person yn gyfrifol am lunio'r myfyrdod ac yn ei ebostio i bawb. Yn ystod y myfyrdod bydd Delyth yn cynnwys lluniau a darnau cerddoriaeth addas. Yn braf iawn, mae cyfle i drafod newyddion a materion eraill ar ddiwedd y sesiwn, rhyw hanner awr o hyd.

Y Sul diwethaf oedd rhif 53 ac wrth gwrs rydym wedi dechrau cynnal oedfaon yn y capel. Criw bach oeddem. Yn sicr mae Zoom wedi diwallu anghenion addoli, wedi ymladd unigrywydd i'r sawl oedd yn gorfod cysgodi ac wedi cyfoethogi bywydau.

Ymlaen!

Mae Emyr newydd ddechrau yng Ngofalaeth y Gwendraeth, Sir Gaerfyrddin a bydd yn cael ei ordeinio y flwyddyn yma. Beth sydd ganddo i'w ddweud ?

Cyfarchion o Sir Gâr i bobol Aberystwyth a'r fro. Yn gyntaf, gaf fi ddiolch i Eifion am y cyfle i ysgrifennu ychydig o eiriau ar yr adeg cyffroes yma yn hanes Eglwys Crist wrth i ni gyd-gerdded yn adeg Ôl-Cofid.

Fel un sydd wedi magu a byw yn yr un plwyf (Meidrim), mae llawer yn gweud wrtha i mod i yn fachgen o'm milltir sgwâr, ac yn hapus fy mynd yma yn Sir Gaerfyrddin. Rhaid gweud bod hyn yn gymharol wir, er fel i ni wedi profi yn y flwyddyn ddiwethaf, mae modd teithio a trafod gyda pobol o bob cwr o'r byd heb symud o gadair esmwyth.

Wedi gweithio yng Ngofalaeth Llandeilo a'r Arfordir gyda'r Parchedig Ian Sims am bron i 6 mlynedd, bod yn ymgeisydd am y Weinidogaeth, ac astudio gyda coleg yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr, daeth yr amser i dderbyn galwad i ofalaeth Y Gwendraeth. Ac er yr holl waith coleg, does dim yn paratoi at symud gofalaeth a dechrau mewn ardal newydd yn adeg cofid. Ond mae'n amser cyffroes, ac amser i edrych o'r newydd beth yw ystyr bod yn eglwys.

Er mod i wedi dechrau ers rhai misoedd erbyn hyn, mae wedi bod yn anodd dod i nabod yr aelodau wrth i ni addoli ar Zoom, ac yn methu mynd o dŷ i dŷ i ymweld a bugeilio. Er hynny mae'r croeso wedi bod yn gynnes iawn, a dwi yn siŵr eu bod erbyn hyn yn deall bod y gweinidog newydd yn joio cymdeithas a paned. Daw cyfle i wneud mwy wrth i'r cyfyngu presennol lacio pob yn dipyn.

Does dim amheuaeth fod awydd gryf i fynd nôl i fel oedd pethau. Ail gydio yn yr oedfa draddodiadol, ail gydio yn y canu emynau mewn oedfa, ail gydio yn y gymdeithas, y dosbarth Beiblaidd y Gymanfa ac ati. Ond mae hyn i gyd yn mynd i ddod a'i heriau neu gyfleoedd newydd.

Dwi yn siŵr y bydd defnydd o oedfaon rhithiol yn mynd i gadw i fynd, ac i ni yn barod yn dechrau arbrofi ar ddanfon myfyrdodau ar ffurf electronig a ffrydio oedfaon o'r capel, fel bod modd i rhai sydd yn methu bod yn bresennol, dal fod yn rhan o'n hoedfaon.

Nôl ym Mawrth 2020 roedd y gair Zoom dim ond yn rhywbeth oedd i weld mewn comic, a siarad am gael oedfaon byw dros y rhyngrwyd yn rhywbeth heb ei ystyried. Ond i ni wedi dysgu sgiliau newydd i rannu yr efengyl. Wedi dysgu pethau newydd ac wedi derbyn bendith fawr wrth ehangu ein gorwelion.

Efallai ein bod yn dechrau ail gydio mewn oedfaon yn y capeli, ac yn edrych mlaen i weld ail gydio ym mhob agwedd o'r eglwys, OND rhaid i ni gadw y pethau da i ni wedi ei ddysgu, a cadw i arloesi wrth rannu'r Efengyl.

Wrth i ni ddatlu y Pentecost, peidiwn anghofio y ffordd arbennig roedd yr Ysbryd wedi gweithio a bod PAWB yn clywed y Newyddion Da mewn iaith oedd yn ddealladwy iddyn nhw, ble bynnag o nhw. Yr un her sydd gyda ni i ddefnyddio pob arf posibl i gyhoedd yr efengyl i bawb, gan ddefnyddio pob cyfrwng posibl.

Pob bendith i chi i gyd yn y gwaith pwysig yma.



Apêl Brechlynnau Cymorth Cristnogol

Diolch i'r rhai a ymatebodd i'r neges yn Perthyn mis Ebrill. Anfonwyd cyfraniad o £250 yn enw Capel y Morfa i gefnogi ymdrechion Cymorth Cristnogol i gael brechlynnau gwrth-Covid yng ngwledydd tlawd y byd.

PLANT A IEUENCTID

Mae'r ddarpariaeth Meithrin y Morfa, y Clwb Ieuenctid a'r Clwb Bore Sul wedi parhau'n wythnosol ar fore Sul.

Gwasanaeth Teulu Sul y Pentecost

Braf oedd dod at ein gilydd i'r Gwasanaeth Teulu o dan arweiniad Eifion ar Sul y Pentecost ar Zoom ar Fai 24ain a gweld cynifer o deuluoedd, plant a ieuencid wedi ymuno â'r gynulleidfa arferol. Trwy gyfrwng caneuon bywiog, crefft Meithrin y Morfa a ffilm gyfoes adroddwyd hanes y Pentecost cyntaf pan ddaeth yr Ysbryd Glân i roi nerth a hyder i ffrindiau Iesu i rannu'r newyddion da - a phawb yn llefaru yn iaith ei hun. Dyna a wnaeth Nao sydd yn ymuno â ni yn y gwasanaethau o Siapan wrth ddarllen yr hanes yn yr iaith Siapanëeg.

Roedd casgliad o ffrwythau anarferol gan Eifion a phawb yn cael ymgais i ddyfalu eu henwau, a llwyddo hefyd! (Diolch Llew am ddysgu'r enw Cymraeg ffrwyth angerdd i ni (passion fruit). Doedd dim angen llawer o berswâd ar Eifion i'w blasu ond roedd yn gyfrwng ardderchog i gyflwyno ffrwythau'r ysbryd sydd yn cynnwys cariad, llawenydd, tawelwch a daioni.

Estyn llaw

Roedd ffilm am ddameg y Samariad Trugarog a'r geiriau "Gwna dithau yr un modd" yn ein harwain at wythnos Cymorth Cristnogol.

Ar ddydd Sul Mai 9fed rhoddwyd sylw yn Meithrin y Morfa a'r Clybiau Sul i Wythnos Cymorth Cristnogol a chafwyd cyfle i wylïo'r ffilm am fywyd Florence a'i chymuned yn Kenya a

dysgu am apêl eleni a oedd yn casglu tuag at adeiladu argae ddŵr a darparu hadau addas a fyddai'n gwednewid bywydau.

Ffordd y Bywyd

Yr wythnos ganlynol, Mai 16, ar drothwy Dydd Neges Heddwch yr Urdd rhoddwyd sylw i fudiadau ac arwyddion sydd yn rhoi cyfarwyddyd i ni i ofalu am ein gilydd ac am ein byd mewn cariad a heddwch wrth i ni fyw o ddydd i ddydd. Yn sail i hyn oedd geiriau'r Iesu " Myfi yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd" Cafodd pawb gyfle i gyfrannu at greu map o Ffordd y Bywyd ar y Bwrdd Gwyn rhyngweithiol.

SASIWN GENHADOL CHWIORYDD Y DE



Cynhelir y Sasiwn Genhadol yn flynyddol yn ystod mis Mai. Eleni gan nad oedd yr amgylchiadau presennol yn caniatáu ymweld â lleoliad penodol, penderfynwyd ei chynnal yn rhithiol ar Zoom ar brynhawn dydd Iau Mai 20fed. Llywyddwyd

y cyfarfod gan Y Parch Lona Roberts, Llywydd pwyllgor Sasiwn Chwiorydd y De.

Yn dilyn y defosiwn a oedd o dan ofal y swyddogion, cyflwynwyd y siaradwr gwadd, sef Yr Athro Wyn James, Caerdydd. Testun ei anerchiad oedd “Pedr Fardd a’i weledigaeth Genhadol”. Rhoddodd amlinelliad o fywyd Pedr Fardd a’r dylanwadau fu arno, cyn mynd ymlaen i gyflwyno rhai o’r emynau sydd yn amlygu’r weledigaeth Genhadol – gweledigaeth oedd yn seiliedig ar Gomisiwn Iesu i’r disgyblion yn Efengyl Mathew Pennod 28, Adnodau 18 a 19 ‘Ewch i’r holl fyd’

Ganwyd Pedr Fardd yn Eifionydd yn 1775 a symudodd i Lerpwl lle y cyfranodd yn helaeth at fywyd Cymraeg y ddinas fel blaenor, arweinydd y gân ac athro Ysgol Sul yng Nghapel Cymraeg Pall Mall. Cyhoeddai bamffledi o emynau i blant yn flynyddol. Rhannai yr un weledigaeth â William Williams Pantycelyn a Thomas Charles wrth iddynt sefydlu Cymdeithas Genhadol Llundain. Cyfansoddodd ddeunaw o emynau cenhadol yn cynnwys un yn arbennig pan anfonwyd y cenhadwr cyntaf sef Thomas Jones i’r Maes Cenhadol gan Gymdeithas Genhadol Dramor y Methodistiaid Calфинаidd.

Roedd Pedr Fardd yn datgan yn gryf ei wrthwynebiad i gaethwasiaeth ac mae hyn a’i weledigaeth Genhadol yn cael eu hamlygu yn rhai o’i emynau :
er enghraifft : Rhif 271 (Caneuon Ffydd) ‘Hyfryd lais Efengyl hedd’

Pennill 2: Cyfod, Haul Cyfiawnder llon, cyfod dros y ddaear hon..... doed y caethion oll yn rhydd.

Mae’r emyn hon a’r emyn fuddugoliaethus ‘Cyn llunio’r byd, cyn lledu’r nefoedd wen’ o waith Pedr Fardd yn gyfarwydd iawn i ni.

Diolchwyd i Wyn am ei anerchiad ardderchog ac am rannu ffrwyth ei ymchwil mewn ffordd mor ddiddorol a hynaws.

Yn ail ran y cyfarfod cyflwynwyd llyfryn gweithgaredd y flwyddyn a chryno ddisg ar y thema 'Y Bugail Da' gan Sarah Morris. Mae'n cynnwys myfyrdodau, geiriau o brofiad, gwasanaethau, prosiectau dramor yn Uganda, Lesotho a Romania, elusen Babybasics sydd yn cefnogi rhieni a'u babanod a nifer o batrymau crefft. Cyflwynwyd yr adroddiad ariannol gan y Trysorydd a gwahoddiad gan Annie Derrick i Gapel y Gopa Pontarddulais ar gyfer y Sasiwn nesaf ym Mai 2022.

BETH AM FYND AR DAITH.

Gyda thywydd gwell a dyddiau hwy 'rydym ni'n barotach i godi allan!

Taith i fyny Cwm Padarn

Dyma daith allan o'r dref i weld sefydliadau addysgol a fu ym mhentref Llanbadarn gynt.

Dechreuwn ym maes parcio Neuadd yr Eglwys. Yno edrychwch i fyny ac fe welwch yr ysgol gyntaf - ysgol yr eglwys (sy'n ddy byw). Yma cartrefai'r Cyn-Archdderwydd, Bryn Williams (Patagonia), pan weithiai yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Awn heibio'r eglwys a'i thwr hynafol. Yma mae ein hanes: bedd Lewis Morris, cofebau teuluoedd Gogerddan a Nanteos, seiniau Dafydd ap Gwilym, a chysylltiadau William Morgan. Croeswch Riw Briallu. Ar y rhiw saif yr ail ysgol a gaewyd yn 1972 (eto'n ddy). Ymlaen at y sgwâr rhwng Rhiw Briallu a'r Briffordd a chroeswch Nant Padarn gan droi fyny'r ffordd gul (Pen y graig) a chanlyn hafn ddofn y nant, heibio'r tai sy'n glynu i'r llechwedd.

Llun 1.



Dyma gyrraedd trydedd ysgol y pentref - Ysgol Cwmpadarn - a gaewyd ers chwe mlynedd. Bodolodd am ychydig dros ddeugain mlynedd a rwan mae ar werth. Trist yw gweld diflaniad ysgol y pentref a'r plant wedi eu gwasgaru i ysgolion y dref.

Llun 2.



Gyferbyn â'r ysgol fe welwch ardd hyfryd. Yn ôl y cyn-brifathro, hoffai'r plant chwarae ar y llwybr cyhoeddus redai drwy 'ardd Major Mathias' (gardd Plas Bronpadarn). (Dargyfeiriwyd y llwybr a gallwch groesi'r cwm arno.)

Llun3.



Parhewch i ddringo'r llwybr. Erbyn hyn, ffordd drol ydyw ond fe'i gwellwyd yn y cyfnod clo. Edrychwch yn ôl ar yr olygfa gaent o'r ysgol dros y cwm tua Phenparcau a Phen Dinas. Rydym allan yn y wlad rwan ger caeau'r coleg. Llun 4.



Nesawn at safle Coleg Amaethyddol Cymru a sefydlwyd yn 1970. Ymunodd â'r Brifysgol yn 1995 (Adran Astudiaethau Gwledig), a dod yn rhan o IBERS yn 2008. Dros y shetin roedd safle'r hosteli ond fe'u dymchwelwyd oherwydd adeiladwaith peryglus. Pasiwch heibio'r lle ymarfer ceffylau. Llun 5.



Dyma gyrraedd safle fferm Lluest Gwilym lle llafuriodd y teulu Hughes am genedlaethau. Trowyd adeiladau allan y fferm yn dai a chodwyd anheddau o gwmpas y ffald i greu pentref. Llund 6.



Aiff y llwybr â chi ymlaen at Blas Llest. Ei enw gwreiddiol oedd Llest Gwilym Hall ac fe'i adeiladwyd yn 1880 gan gyfreithiwr lleol, Arthur Johnston Hughes. Bu George Stapleton, Cyfarwyddwr y Fridfa Blanhigion, yn byw yma. Yma cartrefodd y Parchedig Owen Prys (1857-1934), Prifathro'r Coleg Diwinyddol, gan symud i Ffordd y Gogledd, a galw ei dŷ yno hefyd yn Llest. Ddechrau'r pedwardegau bu yma loches i Ysgol o Bognor Regis. Yn 1946 gwerthwyd y plas i Syr Ifan ab Owen Edwards am £3,000 a symudwyd yr Ysgol Gymraeg arloesol o Ffordd Llanbadarn yma. Pan sefydlwyd Ysgol Gymraeg swyddogol yn Heol Alecsandra yn y pumdegau gadawyd Llest. Yn ddiweddarach bu prynwr dodrefn yma, yna daeth y Christian Concern for the Mentally Handicapped a helpai oedolion ag anhawsterau dysgu. Adeiladwyd unedau addas ger y plas a dechreuwyd menter blanhigion. Rwan mae newid yma eto - gyda chymdeithas arall yn rhoi ymgeledd. A dyna ni wedi cyrraedd y pen! Dychwelwch drwy aildroedio'r llwybr. Ffordd arall fyddai canlyn rhodfa goediog Plas Llest a throi i'r chwith dros Riw Briallu i Lanbadarn gan basio'r ail ysgol

Mwynhewch y daith!

Diolch i Carwen Vaughan am yr anogaeth i fynd ar daith.

AMBELL I GERDD

Diolch i Gareth am yr englyn sydd ar y clawr. Mae Eurig Salisbury yn ein cyfeirio at gerdd Huw Morys (1622 o 1709) ac yn esbonio ychydig ar y cefndir.

Carol haf
Huw Morys (1622–1709)

Rhowch gennad i lefaru a gwyliwch mo'r dychrynu,
Mae newydd da'n cynyddu, y duwiol deulu da,
Fo aeth y gwaunwyn heibio, aed gofal gydag efo,
4 Codwch i weddio'n ddoeth, heno hi aeth yn ha'.

Na fyddwch rhy gysgadur, deffrowch a chymr'wch gysur,
Bendithion Duw ar eich llafur is awyr yma a sai',
Gwlith Hermon, ffynnon ffyniant, sy'n disgyn yn llifeiriant,
8 Cydganwn am eich llwyddiant ogoniant moliant Mai.

Mae'r adar oll yn canu, mae'r ddaear lwyd yn glasu,
Mae'r egin yd yn tyfu i'n maethu, moethus wedd,
Gwelwn gael ein gwnfyd a diolchwn am ein hiechyd,
12 Moliannwn Dduw yn ddiwyd am hawddfyd ac am hedd.

Un fath â'r coedydd irion sy'n adnewyddu'n ffrwythlon,
Sy â'u blode a'u dail yn dewion, lwys union les a wnân',
Adnewyddwn ninne ein buchedd a'n meddylie,
16 Rhown heibio'r hen bechode a gwnawn galonne glân.

Y meibion da'u cyneddfе, codwch yfory'n fore
I groesawu Clame, y dyddie mwya'u dawn,
Rhodiwch yn ddiniwed os ewch i garu merched,
20 Na wnewch mo'r dwyll trwy ymddiried, wel dyna'r dynged
iawn.

Siriwch chi'r llancesi, cewch flwyddyn lân eleni
A'r meibion i'ch clodfori, bob heini firi ferch,
O mynnwch ennill mawredd, na thraethwch mo'r
anwiredd,
24 Ond dweudyd y gwirionedd mewn llariedd sanctedd
serch.

Y gwrda hael cariadus a'r wreigdda fwynedd foddus,
Rhinweddawl hollawl wlyys well well a fo eich byd,
Llwyddiannus fytho'ch meysydd a'ch tolwyth mewn
llawenydd,

28 Fal perion wnion winwydd ar gynnydd mawr ei gyd.

Gwneuthurwr nef a thiroedd, rheolwr gwynt a dyfroedd,
Achubwr y cenedloedd sydd ben ar bobloedd byd,
A gatwo'n brenin cywrain mewn hiroes yma i'n harwain,
32 Nad allo un gelyn milain am Frydain gael mo'r fryd.

Cyflwyniad

Cerddi i'w canu o Galan Mai ymlaen drwy'r mis oedd y carolau haf. Mae'r tywydd diweddar yn gwneud ei orau i danseilio'r traddodiad, ond yr un yw'r sicrwydd yn y pen draw – mae'r haf wedi cyrraedd, fel bendithion Duw!

A dilyn teitl y gerdd hon yn Cwrtmawr 222, Car[ol] Haf ydyw, sef cerdd i'w chanu wrth ymweld â chartrefi'n gynnar ar fore Calan Mai a thrwy gydol y mis. Mae'n cyd-fynd â phatrwm arferol y carolau o ran cyfarch trigolion y tŷ a'u hannog i agor y drws, cyfarch y meibion a'r llancesi, a hithau'n fis caru, ynghyd â bendithio gŵr a gwraig y tŷ.

Diolch i Eirug ac am ei nodiadau manwl yn ei olygiad o'r gerdd. Os am gopi yna dewch i gysylltiad.



YNG NGHWMNI'R SAINT

Arglwydd, yn aml, wrthyf fy hunan,
mae fy llygaid yn ddall,
fy nghlustiau yn fyddar,
fy nghalon yn ddigariad,
fy ffydd yn wan
a'm gweddi yn ddistaw.

Ond yng nghwmni'r saint, Arglwydd,
yn rhwymau'r teulu,
caf weld dy ogoniant drwy lygaid eraill,
caf glywed gair dy obaith yng ngheiriau eraill,
caf ymdeimlo â mawredd dy gariad yng nghwlwm cariad eraill,
caf ymddiried ynot drwy bwysu ar ffydd eraill;
dyrchefir fy ngweddiau yng nghymundeb gweddiau'r saint.

Diolchwn, Arglwydd,
am gymdeithas y saint,
am gwmwl tystion y ffydd,
ac am gymundeb dy Eglwys lân drwy'r byd a'r nef.
Yn rhwymau'r teulu, gwna ni'n wrol dros y gwir,
yn gadarn yn y ffydd ac yn dystion i obaith yr Efengyl,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Amen

Noel A. Davies allan o Amser i Dduw, Gol. Elfed ap Nefydd
RobertsI

SULIAU MEHEFIN

Ar ôl misoedd o addoli ar Zoom, byddwn yn dychwelyd i'r capel ar Fehefin y 6ed. Y patrwm trwy gydol mis Mehefin a Gorffennaf fydd oedfa yn y capel pryd mae Eifion yn gwasanaethu a'r oedfaon eraill ar Zoom. Rhan yr oedfaon yn y capel, byddwn yn eu darlledu'n fyw ar Zoom ac felly os nad ydych yn teimlo'n hyderus ar hyn o bryd i ddychwelyd, gallwch ymuno o'ch catrefi. Cyfnod newydd a menter newydd. Gweddiwn fendith gyfoethog Duw ar y cyfan.

Mehefin 6 – Eifion – Yn y capel – Darllediad byw ar Zoom

Mehefin 13 – Dafydd Andrew Jones – Zoom yn unig

Mehefin 20 – Eifion – Yn y Capel – Darllediad byw ar Zoom

Mehefin 27 – Noel Davies – Zoom yn unig

Yr holl oedfaon am 10 o'r gloch



